# YR OLAF O'R BARWNIAID

**Gan WILLIAM OWEN (Borthygest)**

AWYDD cael rhywbeth i'w ddarllen ar derfyn ha' flwyddyn neu ddwy yn ôl a symbylodd hyn o fyfyrdod. 'Roeddwn i wedi dihysbyddu bron y cyfan o'r cyfrola' a gyhoeddwyd ar gyfer Eisteddfod y flwyddyn honno ac yn awchu am ehangu mymryn, fel petai, ar fy ngorwelion, yn chwilio am newid, am dipyn o 'chênj' ys dywed pobl.

O'r herwydd, i fyny â fi i'r atig acw i weld beth allwn i ei dyrchio oddi yno ac, ar ddamwain megis, trawodd fy llyga'd ar gyfrol drwchus ond hir anghofiedig, ddigon llychlyd ei hoedal hefyd, y bu 'nhad yn ei ddydd yn barchen arni – un o gyhoeddiadau CASSELLS yng nghyfres y STANDARD LIBRARY – cwmni a allai gyda llaw (a all hyd heddiw hyd y gwn i) ymffrostio yn y ffaith fod ganddo ganghennau yn Llundain, Paris, Efrog Newydd yn ogystal â Melbourne bell. A'i deitl? 'THE LAST OF THE BARONS' gan Lord Lytton.

Am homar o gyfrol! Yn wir ac yn wir dim ond rhywun wedi cael dogn lled helaeth, lawer mwy na'i siâr, o addysg, allai fentro gafael yn y fath beth i ddechra cychwyn. A dyna o bosib' fu fy nghamgymeriad i – tybio fod y cymwystera' priodol gen i. A'm helpo! Doedden' nhw ddim, 'neno'r tad.

Y mae'r genedl sy'n byw am y Clawdd â ni yn ffond sobor o arddel perthynas â'r sefydliadau hynny a gyfrannodd addysg mor hael iddynt yn ystod eu blynyddoedd ffurfiannol. Cychwynnir pob nodyn bywgraffyddol, fel enghraifft, ym mhob PWY YW PWY? yn Lloegr gyda'r cyfenw – Digby-Fullerton dyweder, yn cael ei ddilyn gan yr enw bedydd, rywbeth fel John Frederick Victor Alexander hwyrach, ac yna'n prowd mewn cromfachau, Winchester and Corpus Christi, neu Clifton and Kings, Marlborough and Emmanuel, neu Shrewsbury and Magdalene, 'M .. ô .. ô ..dlin', ys dywedant, gyda'r daten boeth lond y geg!

* * *

YN FY achos i fyddai'r peth ddim yn swnio cweit mor swanc rywsut – 'Syr Tomos Jôs a Bangor!' Yn hanes 'nhad fe fyddai'n llai crand fyth, yn gofnod moel odiaeth – Owen: Owen, Carreglefn County Primary – yn cael ei ddilyn gan ddim ond clamp o 'ffwl stop'! Er mai coleg o fath, decini, oedd Clegyrog Ucha' yr aethai yno'n was bach, heb yr un blewyn ar ei frest, ac yntau ddim ond unarddeg ar ôl cefnu ohono, yn 1906, ar yr unig sefydliad addysgol swyddogol y cawsai brofiad ohono 'rioed . . .

Eithr am gampwaith Lytton yr oeddwn i'n sôn. Un o golofnau'r hen Ymerodraeth nad oedd fachlud i fod arni oedd y parchus ddywededig wr. Sglaig – 'does neb a wâd. Edward George Bulwer-Lytton a rhoi iddo'i enw'n llawn — 1803-1873 — y Barwn Lytton cyntaf.

Bu'n Aelod Seneddol cyfrifol a galluog am bymtheng mlynedd, yn wir yn Ysgrifennydd Trefedigaethol clodwiw am gyfnod byr, heblaw am fod yn nofelydd hanesyddol, yn ddramodydd ac yn fardd o beth bri yn ei oriau hamdden.

Ymhlith ei nofelau mwya' cyfarwydd y mae 'The Last Days of Pompeii', 'Reenji – The Last of the Roman Tribunes', a heb anghofio wrth reswm y gyfrol dan sylw – 'The Last of the Barons',

sy'n druth goreiriog yn ymestyn dros bedwar cant a hanner o ddalennau o'r print mana' welsoch chi yn eich dydd. Ei chefndir yw Rhyfel Y Rhosynnau a'i harwr Richard Neville, Iarll Warwick, a adwaenid mewn cylchoedd silect fel y 'King Maker'.

Barn un beirniad amdani yw ei bod yn "very scholarly in its historical detail and often heavy . . ." Trwm meddir – rargoledig! – mi f'aswn i'n meddwl wir, canys yr ha' hwnnw fe rois gynnig ar ei darllen hi – a methu'n llanast!

Eto'i gyd dyna'r union gyfrol y penderfynodd yr Awdurdodau yn eu graslonrwydd a'u mawr ddoethineb ac wedi, 'roedd hi'n gwbl amlwg, ystyried yr holl egwyddorion addysgol, ei chyflwyno i hogyn unarddeg oed, uniaith Gymraeg o Garreglefn yng Ngogledd Môn ar ddiwedd ei yrfa addysgol ar ddechrau'r ganrif 'ma. A ellir meddwl am undim mwy buddiol?

* * *

FE FUM yn meddwl amdano'n dychwelyd gartre o'r ysgol a'i draed yn gwbl rydd y pnawn Gwener ola' hwnnw yng Ngorffennaf 1906 – blwyddyn union ar ôl Diwygiad Ifan Robaitsh – gobaith yn fflachio yn ei lygaid, tân yn llosgi'n ei fol ac yn edrych draw i'r dyfodol maith efo 'The Last of the Barons; gan yr Arglwydd Lytton yn dynn o dan ei gesail yn ei gynnal!

Cerdded yn dalog reit siwr i lawr allt Capal, galw hwyrach yn Siop Abal Ifas, pen blaenor Bethlehem (M.C.) i ddangos ei breis, cyn rhuthro wedyn am Dy Lawr ple'r oedd hen wraig ei fam ar yr aelwyd yn aros yn eiddgar amdano, er mai prin y gallai hi ddarllen llawysgrifen gymen y Prifathro ar y ddalen flaen – 'Awarded to Owen Owen, fod good attendance, conduct and progress, at the Carreglefn C. School – July 6th 1906.

Ychydig o olion traul sydd ar y gyfrol hyd yn oed heddiw. Yn wir mae fel newydd o hyd. A 'dydw i ddim yn tybio fod y giaffar acw wedi prynu'r un llyfr arall yn 'i oes wedyn chwaith. Welodd o 'rioed angen hen lyfra' chwedl ynta'! Ar ôl cychwyn mor anaddawol a chael llosgi 'i fysedd unwaith, pwy welai fai arno?

Ond y mae acw gyfrol arall yn ogystal, un a dderbyniodd ei fab ieuenga' o'i Ysgol ynta' ymron i hanner canrif yn ddiweddarach – yn 1951 i fod yn fanwl. Mae'n wir na fûm i 'rioed yn greadur aml fy llawryfon eithr y flwyddyn honno, drwy ryw ryfedd anesboniadwy wyrth, cyhoeddwyd 'mod i i dderbyn gwobr ar sail fy mherfformans yn un o'r pynciau yr oeddwn wedi eu sefyll yn yr arholiad newydd sbon danlli grai y mis Mehefin hwnnw – sef y 'Safon O' – o barchus, berarogius goffawdwriaeth bellach.

Yn wahanol i 'nhad fe roddwyd ar ddeall i mi y cawn ddewis fy nghyfrol fy hun ac yr oeddwn i'w derbyn mewn rhwysg a seremoni ar y Diwrnod Gwobrwyo rywbryd yn ystod y tymor dilynol. Hynny a fu.

Saith a chwech oedd cyfanswm anrhydeddus y wobr a chopi o'r argraffiad cynta' o'r ddrama 'Blodeuwedd' oedd y dewis, a do, fe'i cyflwynwyd i mi'n serchog gan wraig y Siaradwr Gwadd, er na chofia i bellach pwy oedd o chwaith, dim ond fod ei 'Fisus' o ar y diwrnod penodedig yn gwisgo het haleliwia fawr frown yr oedd rhimyn o ruban gwyrdd yn ei hamgylchynnu a phluen cynffon ffesant yn saethu ohoni – o'r het felly!

Disgyn i lawr o'r llwyfan rêl congrinero i swn curo dwylo byddarol debygwn i, a chan agor fy llyfr wedi cyrraedd i'm sedd i weld beth oedd mewn 'Coparplet' yn ysgrifenedig arno, dim ond i ganfod fod y cyfan, eto fyth, mewn iaith na allai'r hen Dderwyddon mo'i ddirnad – 'Prize awarded to William Owen for excellence in Welsh Language and Literature – 1951'.

Ag eithrio ambell i "lessyn mewn welsh chwarae teg" 'doedd petha' ddim wedi newid rhyw hylltod er 1906.

* * *

OND O drugaredd, erbyn y drydedd genhedlaeth – ac os digwydd i un o'r ddau acw rywbryd ennill llyfr yn wobr yn eu hysgol nhw – 'rydw i'n synhwyro y bydd pethau fymryn yn wahanol. Nid nad oes lle i wella o hyd cofier . . .

Er 'mod i awydd ymgodymu â The Last of the Barons rywbryd eto hefyd. 'Dydi o ddim ar werth beth bynnag a chaiff o mo 'nhrechu i.

Ond 'rwy'n sylweddoli'n burion y bydd raid i mi astudio am radd ychwanegol i ddechra – D.LITT hwyrach . . . o leia' Ph.D!

Siawns na ddallta i o wedyn! Druan o 'nhad . . .


# L. G. HEYWOOD

**LLYFRWERTHWR**

**Usher House, 30 Mill Street, Ludlow, Shropshire SY8 1BG**

**Ffôn: Ludlow (0584) 872658**

Catalog 15:- Llyfrau ar Gymru a'r Gororau yn barod yn awr. Anfonwch am gopi rhad.

# BARGEN – TALIESIN

**Dros Ddeng Mlynedd o Ddiwylliant am £5**

Manteisiwch ar y cyfle arbennig hwn i brynu pob rhifyn o Taliesin a ymddangosodd rhwng Rhagfyr 1977 a Mai '88, 27 rhifyn am £5! Hefyd Copiau unigol ar gael am 50c y rhifyn.

**Am fanylion cysyllter â: Yr Academi Gymreig, 3ydd Llawr, Tŷ Mount Stuart, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF1 6DQ. Ffôn: 0222/492064**